




## Yr Iaith Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch, 2015/16 - Diwygiedig

15 Medi 2017  
SB 42/2017(R)

**Mae'r adroddiad yma wedi cael ei ddiwygio o ganlyniad i wallau yn nhablau A.1, a C.2. Roedd y gwallau hyn yn fyw yn y fersiynau cyhoeddedig rhwng 17/08/2017 a 14/09/2017.**

Mae'r bwletin hwn yn darparu gwybodaeth am fyfyrwyr mewn addysg uwch sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch (prifysgolion) yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â staff addysg uwch sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac athrawon dan hyfforddiant sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Myfyrwyr yng Nghymru yn ôl faint mae nhw wedi'i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (a)



Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

(a) Nid oedd nifer bach o fyfyrwyr o Brifysgol Casnewydd/De Cymru wedi eu cynnwys yn ffigurau 2011/12 a 2013/14.

(b) Dangosyddion yn unig yw'r targedau, oherwydd iddynt gael eu creu gan ddefnyddio diffiniadau gwahanol.

- Yn 2015/16 astudiodd 7,070 o fyfyrwyr o leiaf 5 credyd yn Gymraeg. O'r rhain, astudiodd 2,800 o leiaf 40 credyd yn Gymraeg, ac o'r rhain, astudiodd 1,370 o leiaf 80 credyd.
- Derbyniodd 1,335 yn rhagor o fyfyrwyr ryw faint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16 o'i gymharu â 2014/15, cynnydd o 21 y cant. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn yn Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, drwy gymysgedd o adrodd yn well am y nifer sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu mwy o gyrsiau i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae nifer y myfyrwyr sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ar gyfer pob dull a lefel astudio yn y 7 mlynedd diwethaf, ac eithrio israddedigion rhan-amser.
- Gwelwyd cynnydd o 60 yn nifer y staff academiaidd a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2010/11 a 2015/16, ond nid yw'r nifer sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi newid llawer er 2012/13.

### Ynglŷn â'r bwletin hwn

Daw'r data sydd wedi'u cynnwys yma o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae myfyrwyr o Gymru sydd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol Agored wedi'u cynnwys yn y data. Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau'n ymwneud â blwyddyn academiaidd 2015/16.

### Yn y bwletin hwn

Cefndir y polisi	2
Newidiadau i'r bwletin	3
Myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru	4
Pynciau modiwlau	10
Myfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru	12
Siaradwyr Cymraeg	15
Addysg Gychwynnol i Athrawon	17
Staff	19
Methodoleg	23
Diffiniadau	25
Gwybodaeth allweddol am ansodd	27

## Cefndir y polisi

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn addysg uwch. Mae [Datganiad Polisi ar Addysg Uwch](#) Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013, yn cadarnhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

## Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) yn gweithio gyda phrifysgolion ledled Cymru i ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Mae'n ariannu darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ysgoloriaethau i alluogi israddedigion ac uwchraddedigion i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth [adroddiad yn 2015](#) i'r casgliad bod y Coleg wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy ehangu ac ymestyn yr ystod o gyfleoedd astudio addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

## Targedau

Gosododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) dargedau ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei [Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2013/14 i 2015/16](#). Y targedau hyn oedd cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd o gwrs addysg uwch yn Gymraeg i 5,600 yn 2015/16, a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio 40 credyd yn Gymraeg i 3,030 yn 2015/16.

Mae'r ffordd y mae HEFCW yn mesur y targedau yn wahanol i'r ffordd maen nhw'n cael eu mesur yn y bwletin hwn. Yn y bwletin hwn:

- defnyddir y nifer sydd wedi cofrestru yn hytrach na chyfrif pennau;
- mae'r ffigurau'n cynnwys Sefydliadau Addysg Uwch yn unig; ac
- mae'r ffigurau'n cynnwys pob modiwl sy'n cael ei astudio mewn blwyddyn, yn hytrach na phob modiwl a gychwynwyd mewn blwyddyn.

Oherwydd hyn, ni ellir defnyddio'r bwletin hwn i asesu cynnydd â'r targedau. Er hyn, mae'r targedau'n gyd-destun defnyddiol ac yn rhoi rhyw syniad ynglŷn â chyfeiriad a maint y newid.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o 2017-18 ymlaen. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 a 40 credyd yn Gymraeg yn dal i gael ei fonitro, ac ar ôl cyhoeddi Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg sefydlir targedau hirdymor newydd.

## Addysg Gychwynnol i Athrawon

Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a datganiad polisi dilynol, [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y Camau Nesaf](#), a gyhoeddwyd ym Mawrth 2016, yn cydnabod bod angen gweithlu cyfrwng Cymraeg sy'n darparu digon o ymarferwyr ar gyfer pob cam o'r broses addysg.

## Staff

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu rhaglenni hyfforddi a llwybr ar gyfer cymhwyso fel addysgwyr cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg i staff academiaidd.

## Newidiadau i'r bwletin

Gwnaethpwyd llawer o newidiadau pwysig i'r bwletin eleni. Y tri phrif ffactor y tu ôl i'r newidiadau oedd:

- trafodaethau gyda defnyddwyr am eu hanghenion;
- gwella cysondeb rhwng y bwletin a StatsCymru, lle mae'r tablau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael eu hehangu; a
- methodoleg fwy manwl gywir yn y bwletin.

## Y swm sy'n cael ei astudio mewn credydau

Cyflwynir y swm sy'n cael ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn credydau, ac nid fel canran o addysg y myfyriwr. Mae hyn yn rhoi gwell darlun o wir swm y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae credydau hefyd yn ein galluogi i gymharu'n well â'r targedau. Ceir rhagor o wybodaeth yn y [Diffiniadau](#).

## Diwygiadau

Nid yw'r bwletin bellach yn cynnwys diwygiadau wedi'u gwneud gan brifysgolion â llaw ar ôl i'w data gael eu prosesu gan HESA. Os oedd y diwygiadau hyn yn effeithio ar dablau yn y bwletin, cafodd y diwygiadau eu tynnu ymaith a chynhwyswyd troednodyn yn eu lle.

Nid oedd y diwygiadau'n ddigon manwl i gael eu cynnwys ar StatsCymru nac mewn tablau newydd. Penderfynwyd peidio â'u cynnwys er mwyn i'r rhifau fod yn gyson drwy gydol y bwletin.

Roedd y diwygiadau'n deillio o broblemau adrodd yn gysylltiedig â Phrifysgol Casnewydd, sydd bellach yn rhan o Brifysgol De Cymru. Mae'r problemau hyn wedi cael eu datrys. Roedd y diwygiadau'n cael effaith ar lai na 100 o fyfyrwr ac nid oedd dim yn 2014/15.

## Y Brifysgol Agored

Mae myfyrwr o Gymru sy'n mynychu'r Brifysgol Agored yn cael eu cynnwys erbyn hyn. Mae'r rhan fwyaf o ddatganiadau ystadegol addysg uwch Llywodraeth Cymru yn cynnwys myfyrwr y Brifysgol Agored, ac maent wedi cael eu cynnwys yn y targedau.

## Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data pynciau

Mae data pynciau yn cael eu hadrodd ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yn hytrach na chyfrifiadau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE). Mae'n haws cymharu cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn â'r ffigurau eraill yn y bwletin.

## Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data staff

Mae ffigurau staff yn cael eu hadrodd yn awr ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn. Cyn hyn, oni nodid yn wahanol, roeddent yn cael eu hadrodd mewn niferoedd crai. Byddai hyn yn golygu bod staff sydd â chontractau mewn mwy nag un ardal yn cael eu cyfrif ddwywaith.

## Adran A: Myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru


Mae'r adran hon yn ymdrin â myfyrwyr a aeth i brifysgol yng Nghymru ac a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae myfyrwyr yn cael eu gwahanu nawr yn ôl faint o gredydau y gwnaethant eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn honno. Cyfrifir faint yn union y mae'r myfyrwyr yn ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Mae'r categorïau *rhywfaint/5/40/80* hefyd yn gorgyffwrdd. Mae pawb sy'n astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys yn y categori astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn 2015/16. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd cynnydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Nid oedd nifer y myfyrwyr a fu'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar gampws Coleg Sir Gâr wedi'u cynnwys yn y ffigurau ers i'r ddau goleg uno ym mis Awst 2013, ond mae'r nifer hwnnw bellach wedi'i gynnwys yn y ffigurau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2015/16. Mae'r brifysgol hefyd wedi datblygu cyrsiau i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar y campws yn Abertawe – yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ym maes y Celfyddydau a myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Mae dadansoddiad pellach o'r data i'w weld ar [StatsCymru](#).

### Siart A.1: Myfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl lefel a dull astudio (a)(b)



(a) Nid yw'n cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored.

(b) Mae nifer bach o fyfyrwyr o Brifysgol Casnewydd/De Cymru heb eu cynnwys yn y ffigurau 2011/12 a 2013/14.

[StatsCymru](#)

- Mae nifer y myfyrwyr sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ar gyfer pob dull a lefel astudio yn ystod y 7 mlynedd diwethaf, ac eithrio israddedigion rhan amser.
- Am bob 3 o israddedigion amser llawn yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2014/15, roedd 4 yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16.

- Cyrhaeddodd nifer yr uwchraddedigion rhan-amser uchafbwynt yn 2014/15 o ganlyniad i'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a oedd yn cael ei chynnig am ddim i Athrawon Newydd Gymhwysu. Roedd nifer yr uwchraddedigion rhan-amser yn 2015/16 yn dal yn uwch nag yr oedd yn 2013/14.
- Mae nifer yr uwchraddedigion rhan-amser sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi treblu rhwng 2008/09 a 2015/16, o 130 o fyfyrwyr i 395.
- Am bob 5 o uwchraddedigion amser llawn yn astudio rhywfaint o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2008/09, roedd 13 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16.
- Dylid edrych ar y gostyngiad yn nifer yr israddedigion rhan-amser sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyd-destun gostyngiad cyson yn nifer yr israddedigion rhan-amser sy'n astudio drwy gyfrwng unrhyw iaith mewn prifysgolion yng Nghymru. Er gwaetha'r tueddiadau cenedlaethol, mae'r nifer sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi er 2013/14 ac aeth o 1,430 yn 2014/15 i 1,960 yn 2015/16.

**Tabl A.1: Faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru (a)(c)**

<i>Cofrestriadau a chanrannau</i>					
Cofrestriadau	2011/12 (b)	2012/13	2013/14 (b)	2014/15	(d) 2015/16
Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	(r) 4,845	(r) 5,560	(r) 5,260	(r) 6,445	(r) 7,780
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	4,560	5,115	5,000	5,875	7,070
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	2,255	2,340	2,430	2,435	2,800
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1,225	1,390	1,410	1,365	1,370
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	135,615	131,955	131,885	126,530	120,905
Pob cofrestriad	140,460	137,520	137,145	132,975	128,685
<i>Canrannau (%)</i>					
Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	(r) 3	4	4	5	6
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	3	4	4	4	5
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	2	2	2	2	2
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1	1	1	1	1
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	97	96	96	95	94

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys. Diwygiwyd ffigurau o 2011/12 er mwyn iddynt gyfateb.

(b) Adroddodd Prifysgol Casnewydd, sydd bellach yn rhan o Brifysgol De Cymru, am ragor o fyfyrwyr a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl. Y niferoedd yw 22 yn 2011/12 a 74 yn 2013/14.

(c) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(d) Nodwyd y gwerth 2015/16 anghywir ar gyfer "Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg" rhwng 17/08/2017 a 14/09/2017.

(r) Diwygiedig

[StatsCymru](http://stats.cymru)

- Fe wnaeth 7,070 o fyfyrwyr astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn 2015/16. O'r rhain, fe wnaeth 2,800 astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg, ac o'r rhain fe wnaeth 1,370 astudio o leiaf 80 credyd.
- Derbyniodd 1,335 yn rhagor o fyfyrwyr rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16 o'i gymharu â 2014/15, cynnydd o 21 y cant o'r naill flwyddyn i'r llall. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

- Mae angen bod yn ofalus, gan fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r targedau yn wahanol, ond rhagorwyd ar y targed o 5,600 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg, â 1,470 yn fwy o fyfyrwyr. Methwyd â chyrraedd y targed o 3,030 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd – 230 yn fyr.
- Nid oedd nifer y myfyrwyr yn astudio o leiaf 80 credyd wedi newid llawer er 2014/15.

**Tabl A.2: Myfyrwyr prifysgol, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)(c)**

Cofrestriadau	Cofrestriadau a chanrannau					
	Rhywfaint o addysg				Dim addysg	
	drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	drwy gyfrwng y Gymraeg	Pob cofrestriad
Prifysgol Bangor	1,570	1,545	835	505	9,060	10,630
Prifysgol Glyndŵr	10	10	*	*	6,650	6,660
Prifysgol Aberystwyth	450	445	350	185	8,305	8,755
Drindod Dewi Sant	4,255	3,675	895	420	5,680	9,935
Prifysgol Abertawe	335	305	100	45	17,110	17,445
Prifysgol De Cymru	415	385	135	55	24,850	25,265
Prifysgol Caerdydd	420	420	275	95	30,255	30,675
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	250	250	205	60	12,330	12,580
Brifysgol Agored	75	35	*	*	6,665	6,735
Pob sefydliad	7,780	7,070	2,800	1,370	120,905	128,685
<b>Canrannau (%)</b>						
Prifysgol Bangor	15	15	8	5	85	
Prifysgol Glyndŵr	-	-	-	-	100	
Prifysgol Aberystwyth	5	5	4	2	95	
Drindod Dewi Sant	43	37	9	4	57	
Prifysgol Abertawe	2	2	1	-	98	
Prifysgol De Cymru	2	2	1	-	98	
Prifysgol Caerdydd	1	1	1	-	99	
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	2	2	2	-	98	
Brifysgol Agored	1	1	-	-	99	
Pob sefydliad	6	5	2	1	94	

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(c) Mae 0, 1, 2 yn cael eu talgrynnu i 0 a'u cynrychioli â \*. Caiff canrannau sy'n llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â -.

[StatsCymru](#)

- Fe wnaeth 1 o bob 100 myfyriwr mewn prifysgolion yng Nghymru astudio 80 credyd neu ragor yn Gymraeg yn 2015/16. Roedd y gyfran uchaf ym Mhrifysgol Bangor (5 y cant).
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr (4,255) a'r gyfran fwyaf o'i myfyrwyr (43 y cant) yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Prifysgol Glyndŵr oedd â'r nifer lleiaf (10) a'r gyfran leiaf (yn talgrynnu i 0 y cant) o'i myfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y nifer wedi gostwng o 45 yn 2014/15.
- Roedd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda'i gilydd yn gyfrifol am dri chwarter yr holl addysg a dderbyniwyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwelwyd cynnydd bach (1 pwynt canran) yn y myfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg er 2014/15.

**Tabl A.3: Dull astudio myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)(c)**

<i>Cofrestriadau a chanrannau</i>						
<i>Cofrestriadau</i>	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg		o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	<i>Pob cofrestriad</i>
	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	yn Gymraeg	Gymraeg	Gymraeg	Gymraeg	
Llawn-amser	5,350	4,865	2,395	1,330	86,455	91,805
Rhan-amser	2,430	2,205	410	40	34,450	36,880
Pob dull	7,780	7,070	2,800	1,370	120,905	128,685
<i>Canrannau (%)</i>						
Llawn-amser	6	5	3	1	94	
Rhan-amser	7	6	1	-	93	
Pob dull	6	5	2	1	94	

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(c) Caiff canrannau sy'n llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â -.

[StatsCymru](#)

- Am bob 10 o fyfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd 7 wedi cofrestru fel myfyrwyr amser llawn.
- Derbyniodd cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (7 y cant), o gymharu â myfyrwyr amser llawn (6 y cant).

**Tabl A.4: Lefel astudio myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)(c)**

*Cofrestriadau a chanrannau*

Cofrestriadau	Rhywfaint o					Pob cofrestriad
	addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	
Ymchwil ôl-radd	40	40	30	25	4,275	4,320
Cwrs ôl-radd a addysgir	1,095	1,060	415	210	19,795	20,890
Gradd gyntaf	4,575	4,115	2,085	1,100	77,150	81,725
Israddedig eraill	2,065	1,855	275	35	19,680	21,745
Pob cofrestriad	7,780	7,070	2,800	1,370	120,905	128,685
<b>Canrannau (%)</b>						
Ymchwil ôl-radd	1	1	1	1	99	
Cwrs ôl-radd a addysgir	5	5	2	1	95	
Gradd gyntaf	6	5	3	1	94	
Israddedig eraill	10	9	1	-	90	
Pob cofrestriad	6	5	2	1	94	

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(c) Caiff canrannau sy'n llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â -.

[StatsCymru](#)

- Derbyniodd 1 o bob 10 o israddedigion eraill gyntaf rywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16.
- Y gyfran fwyaf o fyfyrwyr yn astudio 40 credyd yn Gymraeg oedd israddedigion sy'n astudio gradd (3 y cant).



**Tabl A.5: Rhyw myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)**

*Cofrestrïadau a chanrannau*

Cofrestrïadau	Rhywfaint o					Pob cofrestrïad
	addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	
Gwrywaidd	2,395	2,145	750	355	56,305	58,695
Benywaidd	5,385	4,920	2,050	1,010	64,555	69,940
Personau	7,780	7,070	2,800	1,370	120,905	128,685
<i>Canrannau (%)</i>						
Gwrywaidd	4	4	1	1	96	
Benywaidd	8	7	3	1	92	
Personau	6	5	2	1	94	

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

[StatsCymru](http://www.stats.gov.wales)

- Roedd mwy o fenywod yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg nag o wrywod ym mhob categori dwysedd.
- Ar gyfer pob 9 o fenywod yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, dim ond 4 o wrywod oedd yn gwneud hynny.
- Roedd myfyrwyr benywaidd 2.3 gwaith yn fwy tebygol o astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg na myfyrwyr gwrywaidd.

## **Adran B: Pynciau modiwlau**

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r dadansoddiad fesul pwnc o'r myfyrwyr a aeth i brifysgol yng Nghymru ac a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifir y pynciau y mae myfyriwr yn eu hastudio fesul modiwl, yn wahanol i ddata eraill a gyhoeddir am addysg uwch. Mae hyn oherwydd bod gwybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chasglu fesul modiwl.

Gall myfyriwr astudio modiwlau mewn nifer o bynciau, a hyd yn oed mwy nag un pwnc mewn modiwl unigol. Gallai unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau gynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd am nifer y pynciau mewn ffordd sy'n gyson â'r cyfansymiau cyfrwng Cymraeg mewn manau eraill ond sydd hefyd yn fanwl gywir o ran canran y myfyrwyr sy'n astudio pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau'n fanwl gywir.

Mae pynciau yr adroddir amdanynt mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn yn rhannu pob myfyriwr ar draws y pynciau maen nhw'n eu hastudio. Pe bai cwrs myfyriwr yn golygu ei fod yn treulio hanner ei amser yn astudio Mathemateg a'r hanner arall yn astudio'r Gyfraith, byddai hynny'n cyfrif fel hanner myfyriwr (0.5) yn astudio Mathemateg a hanner myfyriwr yn astudio'r Gyfraith. Ar ôl i bynciau myfyriwr gael eu cyfrifo mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn, byddwn yn gwirio a gafodd unrhyw ran o bwnc ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, os Mathemateg yw hanner cwrs myfyriwr (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn), a'i fod yn astudio rhywfaint o Fathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, yna mae hefyd yn cyfrif fel hanner myfyriwr yn astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn).

**Tabl B.1: Pynciau modiwlau myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)**

	Cofrestrïadau (Cyfwerth â Pherson Llawn) a chanrannau		
	Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg	Canrannau (%)	Pob cofrestrïad
Meddygaeth a deintyddiaeth	45	1	3,500
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	505	4	13,915
Gwyddorau biolegol	460	3	14,855
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig	100	7	1,490
Gwyddorau ffisegol	195	3	6,440
Gwyddorau mathemategol	50	2	2,560
Cyfrifiadureg	35	1	4,720
Peirianeg a thechnoleg	155	2	10,105
Pensaemïaeth, adeiladu a chynllunio	65	3	2,425
Astudiaethau cymdeithasol	810	8	10,545
Y Gyfraith	95	2	4,570
Astudiaethau busnes a gweinyddol	425	3	16,350
Cyfathrebu torfol a dogfennu	70	3	2,405
leithoedd	645	7	9,125
Cymraeg	510	91	560
Cymraeg Llenyddiaeth	10	71	10
Iaith Geltaidd arall	75	60	125
Iaith Ewropeaidd arall	20	1	2,610
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	170	3	4,955
Celfyddydau creadigol a dylunio	660	7	8,850
Drama	125	10	1,220
Cerddoriaeth	30	2	1,375
Sinematograffeg	15	1	1,250
Addysg	2,895	24	11,865
Hyfforddiant athrawon	1,475	57	2,585
Astudiaethau Academaidd mewn Add	1,070	17	6,480
Pob pwnc	7,380	6	128,675

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys.

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

[StatsCymru](http://stats.cymru.gov.uk)

- Addysg sydd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg (2,895) a'r gyfran fwyaf (24 y cant).
- Roedd 510 o'r myfyrwyr a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16 yn ei dderbyn drwy fodiwl a oedd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y pwnc mwyaf poblogaidd oedd busnes ac astudiaethau gweinyddol, ond dim ond 3 y cant o'r myfyrwyr oedd yn derbyn unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwyddor cyfrifiaduron oedd y maes pwnc â'r gyfran leiaf o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae cyrsiau Cymraeg yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n cael eu haddysgu 100 y cant drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 91 y cant yw'r ganran yn y data oherwydd mae'n bosibl bod rhai prifysgolion yn camgofnodi'r gyfran o fodiwl sy'n cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Adran C – Myfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru

Mae'r rhan hon yn ymdrin â myfyrwyr a oedd yn dod o Gymru ac a aeth i brifysgol yng Nghymru. Yma, mae rhywun yn dod o Gymru, neu'n hanu o Gymru os oedd ei gyfeiriad cartref yng Nghymru **cyn** iddo gychwyn y cwrs. Gallai rhywun nad yw'n hanu o Gymru fod wedi byw yng Nghymru o'r blaen.

**Tabl C.1: Preswylfan myfyrwyr o Gymru sydd mewn prifysgolion yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)**

	<i>Cofrestriadau</i>		
	Hanu o Gymru	Ddim yn hanu o Gymru	Pob cofrestrriad
Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	7,060	720	7,780
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	6,465	605	7,070
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	2,705	95	2,800
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1,325	45	1,370
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	60,940	59,945	120,905
Pob cofrestrriad	68,000	60,665	128,685

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys.

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

[StatsCymru](#)

- Roedd 720 o fyfyrwyr nad oeddent yn hanu o Gymru yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgol yng Nghymru.

**Tabl C.2: Faint oedd yn cael ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg gan fyfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru (a)(b)(c)**

<i>Cofrestrïadau a chanrannau</i>					
<u>Cofrestrïadau</u>	<u>2011/12</u>	<u>2012/13</u>	<u>2013/14</u>	<u>2014/15</u>	<u>(d) 2015/16</u>
Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	(r) 4,485	(r) 4,850	(r) 4,710	(r) 5,905	(r) 7,060
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	4,235	4,575	4,515	5,450	6,465
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	2,200	2,275	2,335	2,355	2,705
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	1,220	1,360	1,375	1,325	1,325
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	71,710	70,010	68,205	64,880	60,940
Pob cofrestrïad	(r) 76,195	(r) 74,865	(r) 72,920	(r) 70,785	68,000
<u>Canrannau (%)</u>					
Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	(r) 6	(r) 6	(r) 6	(r) 8	10
o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	6	6	6	8	10
o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	3	3	3	3	4
o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	2	2	2	2	2
Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	94	94	94	92	90

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

- (a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys. Diwygiwyd ffigurau o 2011/12 er mwyn iddynt gyfateb.
- (b) Adroddodd Prifysgol Casnewydd, sydd bellach yn rhan o Brifysgol De Cymru, am ragor o fyfyrwyr a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg nad ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl. Y niferoedd yw 7 yn 2011/12 a 74 yn 2013/14.
- (c) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.
- (d) Nodwyd y gwerth 2015/16 anghywir ar gyfer "Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg" rhwng 17/08/2017 a 14/09/2017.
- (r) Diwygiedig

[StatsCymru](http://stats.cymru)

- Cynyddodd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg 20 y cant o'i gymharu â 2014/15.

**Tabl C.3: Prifysgol myfyrwyr o Gymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)(c)**

*Cofrestriadau a chanrannau*

Cofrestriadau	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg			Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg		Pob cofrestriad
	o leiaf 5 credyd yn	o leiaf 40 credyd yn	o leiaf 80 credyd yn			
	Gymraeg	Gymraeg	Gymraeg	Gymraeg	Gymraeg	
Prifysgol Bangor	1,355	1,340	820	505	2,535	3,885
Prifysgol Glyndŵr	10	10	*	*	4,280	4,290
Prifysgol Aberystwyth	385	380	305	160	2,750	3,135
Drindod Dewi Sant	3,845	3,360	865	410	3,900	7,745
Prifysgol Abertawe	325	295	100	45	7,750	8,075
Prifysgol De Cymru	410	385	135	55	17,005	17,415
Prifysgol Caerdydd	410	410	270	95	10,625	11,035
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	250	250	205	60	5,430	5,680
Brifysgol Agored	75	35	*	*	6,665	6,735
Pob sefydliad	7,060	6,465	2,705	1,325	60,940	68,000
<b>Canrannau (%)</b>						
Prifysgol Bangor	35	34	21	13	65	
Prifysgol Glyndŵr	-	-	-	-	100	
Prifysgol Aberystwyth	12	12	10	5	88	
Drindod Dewi Sant	50	43	11	5	50	
Prifysgol Abertawe	4	4	1	1	96	
Prifysgol De Cymru	2	2	1	-	98	
Prifysgol Caerdydd	4	4	2	1	96	
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	4	4	4	1	96	
Brifysgol Agored	1	1	-	-	99	
Pob sefydliad	10	10	4	2	90	

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(c) Mae 0, 1, 2 yn cael eu talgrynnu i 0 a'u cynrychioli â \*. Caiff canrannau sy'n llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â -.

[StatsCymru](http://StatsCymru)

- Nid yw patrwm y categori 'rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg' mewn gwahanol brifysgolion wedi newid llawer wrth edrych ar fyfyrwyr a oedd yn dod o Gymru yn unig.

## Adran D – Siaradwyr Cymraeg

Mae HESA yn casglu data gan bob myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn prifysgol yng Nghymru lle mae'r myfyriwr yn preswyllo fel arfer yng Nghymru (cyn astudio). Mae'r data yn cofnodi a yw'r myfyriwr yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg ac a yw'n rhugl ai peidio. Mae ansawdd y data ar draws sefydliadau'n amrywio, ac mae gan ambell sefydliad gyfran sylweddol fwy o gofnodion 'anhysbys'. Er hyn, gan fod cyfradd gyffredinol y cofnodion 'anhysbys' yn llai na'r blynyddoedd cynharach, mae'n fwy defnyddiol erbyn hyn ar gyfer dadansoddiadau.

**Tabl D.1: Gallu myfyrwyr o Gymru sydd mewn prifysgolion yng Nghymru i siarad Cymraeg, yn ôl y swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (a)(b)**

	<i>Cofrestrïadau</i>					
	Rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	o leiaf 5 credyd yn Gymraeg	o leiaf 40 credyd yn Gymraeg	o leiaf 80 credyd yn Gymraeg	Dim addysg drwy gyfrwng y Gymraeg	Pob cofrestrïad
Siaradwr Cymraeg rhugl	3,315	3,245	2,020	1,115	6,715	10,030
Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl	1,290	1,170	295	90	9,040	10,330
Ddim yn siarad Cymraeg	1,950	1,605	215	20	40,865	42,815
Anhysbys	505	445	175	95	4,325	4,825
<b>Pob myfyriwr</b>	<b>7,060</b>	<b>6,465</b>	<b>2,705</b>	<b>1,325</b>	<b>60,940</b>	<b>68,000</b>

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

[StatsCymru](#)

- Roedd y myfyrwyr a oedd yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u rhannu'n weddol gyfartal i ddau grŵp - siaradwyr Cymraeg rhugl a rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd 3,315 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 3,240 myfyriwr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg, neu a oedd yn siarad Cymraeg, ond nad oeddent yn rhugl yn yr iaith, yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd 20 o'r myfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf 80 credyd yn Gymraeg wedi dweud nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod rhai problemau â'r data o hyd.

**Tabl D.2 Prifysgol a gallu i siarad Cymraeg myfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru, 2015/16 (a)(b)(c)**

	<i>Cofrestriadau</i>				
	Siaradwr		Ddim yn siarad Cymraeg	Anhysbys	Pob cofrestriad
	Siaradwr Cymraeg rhugl	Cymraeg ond ddim yn rhugl			
Prifysgol Bangor	1,620	815	1,450	*	3,885
Prifysgol Glyndŵr	400	1,070	2,785	35	4,290
Prifysgol Aberystwyth	850	560	1,605	125	3,135
Drindod Dewi Sant	1,290	1,410	4,085	965	7,745
Prifysgol Abertawe	1,220	1,170	5,245	440	8,075
Prifysgol De Cymru	1,730	2,285	12,975	430	17,415
Prifysgol Caerdydd	1,755	1,510	7,510	265	11,035
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	770	780	4,025	105	5,680
Brifysgol Agored	400	735	3,140	2,465	6,735
Pob sefydliad	10,030	10,330	42,815	4,825	68,000

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'u cynnwys

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(c) Mae 0, 1, 2 yn cael eu talgrynnu i 0 a'u cynrychioli â \*.

[StatsCymru](#)

- Yn 2015/16, Prifysgol Bangor (42 y cant), Prifysgol Aberystwyth (27 y cant) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (17 y cant) oedd â'r cyfrannau mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl. Dim ond 6 y cant o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl.
- Gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ym Mhrifysgol Glyndŵr 2 pwynt canran i 9 y cant, gan fynd y tu ôl i Brifysgol De Cymru. Er hyn, mae gan Brifysgol Glyndŵr ganran lawer mwy o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl.
- Yn gyffredinol, roedd bron i ddau o bob tri myfyriwr a oedd yn hanu o Gymru yn ystyried eu hunain yn rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. Roedd gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ill dwy fwy na 70 y cant o fyfyrwyr yn hanu o Gymru na allent siarad Cymraeg.



## Adran E – Addysg Gychwynnol i Athrawon

Mae myfyriwr Addysg Gychwynnol i Athrawon (Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o'r blaen) yn cael ei gyfrif fel un sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog, sydd wedi cwblhau cwrs a gynlluniwyd er mwyn galluogi myfyrwr i addysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a allai fod wedi arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg ddwyieithog, ond nid o reidrwydd.

**Tabl E.1: Lefel ysgol myfyrwr yn cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru sy'n arwain at addysgu dwyieithog (a)(b)(c)**

		<i>Myfyrwr cymwysedig cyrsiau AGA</i>				
		2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Pob Ysgol	Gallu addysgu yn Gymraeg	210	255	300	260	225
	Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg	1,440	1,210	1,130	1,050	945
Ysgol Gynradd	Gallu addysgu yn Gymraeg	115	160	150	145	145
	Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg	645	510	520	480	495
Ysgol Uwchradd	Gallu addysgu yn Gymraeg	95	100	145	115	80
	Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg	790	705	610	570	450

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Yn 2013/4 roedd yna newid bach i sut roedd myfyrwr y Brifysgol Agored sy'n byw yng Nghymru yn cael eu nodi.

(b) Mae'r ffigurau'n cynnwys y rhai hynny sydd wedi cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon gan arwain at Statws Athro Cymwysedig.

(c) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

[StatsCymru](#)

- Fe wnaeth 225 o fyfyrwr gwblhau cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon a oedd yn eu gwneud yn gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd 19 y cant o'r holl rai a gwblhaodd y cwrs yn gallu addysgu'n ddwyieithog, 1 pwynt canran yn is nag yn 2014/15, ond 6 pwynt canran yn uwch nag yn 2011/12.
- Roedd 23 y cant o'r athrawon cynradd dan hyfforddiant yn gallu addysgu'n ddwyieithog, o gymharu â 15 y cant o'r athrawon uwchradd dan hyfforddiant.

**Tabl E.2: Y math o radd sydd gan fyfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru sy'n arwain at addysgu ddwyieithog (a)(b)(c)**

		<i>Myfyrwyr cymwysedig cyrsiau AGA</i>				
		2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
TAR	Gallu addysgu yn Gymraeg	155	185	215	185	165
	Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg	1,085	980	900	840	735
Gradd Arall	Gallu addysgu yn Gymraeg	55	70	85	80	60
	Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg	350	230	225	210	210

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Yn 2013/4 roedd yna newid bach i sut roedd myfyrwyr y Brifysgol Agored sy'n byw yng Nghymru yn cael eu nodi.

(b) Mae'r ffigurau'n cynnwys y rhai hynny sydd wedi cwblhau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon gan arwain at Statws Athro Cymwysedig.

(c) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.


[StatsCymru](#)

- Enillodd bron dri chwarter o'r myfyrwyr hynny Dystysgrif Addysg i Raddedigion – sef y myfyrwyr hynny a gwblhaodd gwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon ac â'r gallu i addysgu'n ddwyieithog.
- Roedd 18 y cant o'r graddedigion TAR yn gallu addysgu'n ddwyieithog, o gymharu â 22 y cant o'r graddedigion â Graddau Eraill.

## Adran F – Staff

Mae'r adran hon yn ymdrin â staff academiaidd sy'n cael eu cyflogi mewn prifysgolion yng Nghymru, ac a ydynt yn addysgu ar hyn o bryd, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r holl ffigurau yn yr adran hon yn cael eu cyfleu fel cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn oni nodir yn wahanol. Mae rhagor o wybodaeth am staff mewn prifysgolion yng Nghymru i'w gweld ar [StatsCymru](#).

### Siart F.1: Cyfrifiadau cyfwerth â pherson llawn â chyfwerth ag amser llawn staff academiaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16



Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg

[StatsCymru](#)

- Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu'n gyson dros y 5 mlynedd diwethaf. Am bob 6 athro/athrawes a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2010/11 (cyfwerth â pherson llawn), roedd 10 yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16.
- Rhwng 2012/13 a 2015/16, roedd y cyfrifiadau cyfwerth â pherson llawn a chyfwerth ag amser llawn yn dilyn yr un patrwm, sy'n awgrymu nad oedd unrhyw newid yng nghyfanswm yr oriau yr oedd staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cyflogi.

**Tabl F.1: Prifysgol staff a oedd yn addysgu, neu a oedd yn gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (b)(c)**

*Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)*

	Yn addysgu drwy'r Gymraeg	Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (a)	Nid yw'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Pob cofrestriad
Prifysgol Bangor	215	280	705	990
Prifysgol Glyndŵr	*	15	220	265
Prifysgol Aberystwyth	150	185	615	850
Drindod Dewi Sant	65	280	355	700
Prifysgol Abertawe	55	85	865	1,320
Prifysgol De Cymru	20	105	1,265	1,415
Prifysgol Caerdydd	70	150	3,235	3,415
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	15	40	615	715
Pob SAU yng Nghymru ac eithrio'r Brifysgol Agored	590	1,135	7,870	9,670

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Mae'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.


(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(c) Mae 0, 1, 2 yn cael eu talgrynnu i 0 a'u cynrychioli â \*.

[StatsCymru](#)

- Yn 2015/16, Prifysgol Bangor oedd yn dal i fod â'r nifer mwyaf o staff academaidd a oedd **yn gallu** addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (280) a hefyd y nifer mwyaf a oedd **yn addysgu mewn gwirionedd** drwy gyfrwng y Gymraeg (215).
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r gyfran fwyaf (40 y cant) o staff academaidd a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y brifysgol â'r gyfran leiaf (4 y cant) o staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oedd Prifysgol Caerdydd.

## Siart F.2: Staff yn addysgu, neu'n gallu addysgu, drwy gyfrwng y Gymraeg (Cyfwerth â Pherson Llawn)



Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg

[StatsCymru](#)

- Mae'r capasiti i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu 60 y cant rhwng 2010/11 a 2015/16. Rhwng 2014/15 a 2015/16 yn unig, gwelwyd cynnydd o 175 yn nifer y staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae nifer y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu 31 y cant rhwng 2010/11 a 2015/16. Er hyn, mae'r niferoedd wedi bod yn weddol sefydlog er 2012/13, er gwaetha'r cynnydd mewn capasiti i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Tabl F.2: Staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n gallu gwneud hynny mewn prifysgolion yng Nghymru (b)

	Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (a)	785	895	960	960	1,135
Nid yw'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	7,705	6,520	7,710	8,795	7,870
Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto	475	2,150	1,470	650	660
Cyfanswm	8,965	9,565	10,140	10,410	9,670
Yn addysgu drwy'r Gymraeg	500	635	590	625	590
Ddim yn addysgu drwy'r Gymraeg	8,360	6,860	8,465	8,810	7,325
Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto	105	2,075	1,085	975	1,755
Cyfanswm	8,965	9,565	10,140	10,410	9,670

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

(a) Mae'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai hynny sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(b) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

[StatsCymru](#)

- Yn 2015/16 roedd 590 o staff academaidd **yn addysgu** drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â 625 yn 2014/15.
- Roedd 1,135 o staff academaidd **yn gallu** addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, o gymharu â 960 yn 2014/15.
- Roedd 52 y cant o'r staff a oedd yn gallu gwneud hynny, yn darparu rhywfaint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2015/16, o gymharu â 65 y cant yn 2014/15.

**Tabl F.3: Canolfan gost staff academiaidd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2015/16 (b)(c)(d)**

	<i>Staff (Cyfwerth â Pherson Llawn)</i>				
	Yn addysgu drwy'r Gymraeg	Ddim yn addysgu drwy'r Gymraeg	Ni ofynnwyd am y wybodaeth eto	Canran fesul Canolfan Gost	
				Pob cofrestrriad	
Gwasanaethau academiaidd	5	65	20	90	4
Astudiaethau gweinyddol, busnes a chymdeithasol	45	1,050	275	1,375	3
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddorau milfeddygol (a)	15	100	40	155	9
Pensaerniaeth a chynllunio	*	105	10	120	1
Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol	25	860	250	1,140	2
Dylunio, celfyddydau creadigol a pherfformio	60	820	230	1,115	6
Addysg	210	480	50	740	28
Peirianeg a thechnoleg	5	650	255	915	1
Dyniaethau ac astudiaethau sy'n seiliedig ar iaith ac archaeoleg	155	580	135	870	18
Y Gyfraith, Economeg a Gwleidyddiaeth	20	380	35	435	4
Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd (a)	45	2,220	450	2,720	2
Preswylfeydd ac Arlwyraeth	*	*	*	*	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>590</b>	<b>7,325</b>	<b>1,755</b>	<b>9,670</b>	<b>6</b>

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

(a) Bellach mae 'Nyrso a'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd' wedi'u cynnwys o dan 'Meddygaeth, Deintyddiaeth ac Iechyd'. Roedd wedi'u cynnwys yn anghywir o dan 'Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Gwyddoniaeth Filfeddygol' o'r blaen.

(b) Mae canolfan gost yn syniad cyllidol sy'n grŵpio aelodau staff i ganolfanau cost penodol er mwyn galluogi dadansoddi rhwng casgliadau data myfyrwyr, staff a chyllid.

(c) Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir y cyfansymiau gan ddefnyddio'r niferoedd crai ac efallai y bydd yn ymddangos nad ydynt yn cyfateb.

(d) Mae 0, 1, 2 yn cael eu talgrynnu i 0 a'u cynrychioli â \*. Caiff canrannau sy'n llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â -.

[StatsCymru](#)

- Roedd y nifer mwyaf o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i'w weld mewn Addysg, yn cael ei ddilyn gan y Dyniaethau, ieithoedd ac archaeoleg. Gyda'i gilydd, roedd y ddwy ganolfan gost hyn yn gyfrifol am 6 o bob 10 aelod o'r staff a oedd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Methodoleg

Nodiadau pwysig ynghylch sut y cyfrifwyd yr ystadegau. Mae gwybodaeth fwy manwl am y termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn ar gael yn yr adran [Ddiffiniadau](#).

## Ffynhonnell y data

Daw'r rhan fwyaf o'r data sydd yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2015/16, sy'n cwmpasu amserlenni, dilysu a rheolau busnes a phrosesau gwirio ar gael ar [wefan HESA](#). Mae crynodeb tebyg i'w weld ar gyfer y broses o [gasglu data staff](#).

## Cwmpas

### Myfyrwyr

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol Addysg Uwch HESA, neu ei phoblogaeth cymwysterau a enillwyd mewn Addysg Uwch, yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael yn y [diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA](#).

Bob tro y defnyddir y gair 'myfyrwyr' yn y bwletin hwn rydym yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Mae hyn yn gyfrif o bawb sydd wedi cofrestru ar gyfer cwrs. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer dau gwrs gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cofrestriadau amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru lai nag 1 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn; a bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2 y cant yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr cymwysedig' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'y cymwysterau a enillwyd'. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr yn cael dau gymhwyster gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

### Staff

Mae pob tabl sydd yn y bwletin hwn yn seiliedig ar boblogaeth contractau staff academiaidd HESA, sy'n cynnwys y contractau hynny a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr o fewn y cyfnod adrodd.

Diffinnir staff academiaidd fel gweithwyr proffesiynol academiaidd sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo ac ymgymryd â dysgu ac ymchwil academiaidd mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

Yn dilyn adolygiad HESA, newidiodd y fethodoleg a ddefnyddir i leoli gweithwyr proffesiynol academiaidd yn 2012/13. Achosodd hyn wahaniaeth sylweddol yng nghanran y staff a ddynodwyd fel "gwybodaeth heb ei cheisio eto" yn y maes yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Y strategaeth ynglŷn â thalgrynnu

Mae'r dull o gyflwyno ffigurau yn y Bwletin Ystadegol hwn yn dilyn egwyddorion strategaeth dalgrynnu HESA. Bwriedir i'r strategaeth atal achosion o ddatgelu gwybodaeth bersonol am unrhyw unigolyn. Yn y strategaeth hon, caiff pob rhif ei dalgrynnu i'r 5 agosaf. Dyma grynodedb o'r strategaeth:

- Mae 0, 1, 2 yn cael eu thalgrynnu i 0 a'u cynrychioli â '\*'.
- Mae pob rhif arall yn cael ei dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Mae cyfansymiau hefyd yn destun y fethodoleg dalgrynnu hon; o ganlyniad, efallai na fydd cyfanswm y rhifau ym mhob rhes neu golofn yn cyfateb yn union i'r cyfanswm a ddangosir. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd crai manwl. Caiff canrannau llai na 0.5 y cant eu cynrychioli â '-'.



## Diffiniadau

### Diffiniadau ar gyfer adrannau A i D – Myfyrwyr

#### Swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â faint o'i addysg y mae myfyriwr wedi'i dderbyn drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn honno. Mae'n egluro faint o bob modiwl a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel 10 credyd. Mae'r categorïau rhywfaint/5/40/80 hefyd yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae pawb sydd wedi astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys fel un sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

#### Gradd gyntaf

Mae gradd gyntaf yn cyfeirio at yr hyn y gellid ei ystyried fel y cwrs israddedig "safonol". **Nid** yw'n golygu mai dyma'r radd israddedig gyntaf y mae myfyriwr wedi'i hastudio.

Mae'n cynnwys graddau cyntaf pa un a ydynt yn arwain at gymhwyster i gofrestru neu ymarfer â chorff rheoleiddio statudol lechyd neu Ofal Cymdeithasol neu Filfeddygol ai peidio, graddau cyntaf â statws athro cymwysedig/cofrestru â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, graddau cyntaf uwch, graddau cyntaf a sicrheir yr un pryd â diploma a graddau cyntaf rhyngosod.

#### Cyferwerth ag amser llawn (FTE)

Mae FTE yn cyflwyno data myfyrwyr yn nhermau'r hyn sy'n gyferwerth â myfyrwyr amser llawn. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd sydd â hanner ei gwrs yn fathemateg, yn hanner yr hyn sy'n gyferwerth â myfyriwr Mathemateg anrhydedd sengl (0.5 FTE). Mae myfyriwr rhan-amser y byddai ei gwrs yn para 6 blynedd yn hytrach na 3 yn cael ei gyfrif fel hanner yr hyn sy'n gyferwerth â myfyriwr amser llawn (0.5 FTE).

#### Cyferwerth â pherson llawn (FPE)

Mae cyfrifiad cyferwerth â pherson llawn yn rhannu myfyrwyr rhwng y gwahanol ddulliau astudio, beth bynnag yw cyfanswm yr amser y mae myfyriwr yn astudio. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd rhan-amser, sy'n astudio hanner Mathemateg, yn dal i gael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.5 FPE). Mewn cyfrifiad FTE byddai'r myfyriwr cyd-anrhydedd hwnnw'n cael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.25 FTE), pe bai cyfanswm yr amser y mae'n astudio hefyd yn hanner yr hyn sy'n gyferwerth â myfyriwr amser llawn.

#### Rhywedd

Mae rhyweddau eraill (anneuaid) yn cael eu cynnwys yn y cyfansymiau.

#### Lefel Astudio

A yw myfyriwr yn astudio cwrs ôl-radd, gradd gyntaf israddedig neu radd israddedig arall. Nid yw myfyrwyr ôl-ddoethurol yn cael eu cynnwys.

#### Dull Astudio

A yw myfyriwr yn astudio ar sail amser llawn neu'n rhan-amser. Fel arfer mae'n ofynnol i fyfyrwyr amser llawn fynychu sefydliad am gyfnodau sy'n gwneud cyfanswm o 24 wythnos o leiaf ym

mlwyddyn y rhaglen astudio. Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir fel arfer i fyfyrwyr ymgymryd â chyfnodau astudio, dysgu neu brofiad gwaith sy'n gyfanswm o 21 awr yr wythnos o leiaf ar gyfartaledd.

### **Graddau israddedig eraill**

Mae graddau israddedig eraill yn cynnwys nodau cymhwyster is na lefel gradd, megis: Graddau Sylfaen; diplomâu mewn AU â chymhwyster i gofrestru i ymarfer â chorff rheoleiddio Iechyd neu Ofal Cymdeithasol; Diploma Cenedlaethol Uwch (HND); Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC); Diploma Addysg Uwch; Tystysgrif Addysg Uwch; cyrsiau sylfaen ar lefel addysg uwch; NVQ/SVQ lefelau 4 a 5; diplomâu a thystysgrifau ôl-radd ar lefel israddedig; cymwysterau proffesiynol ar lefel israddedig; diplomâu a thystysgrifau israddedig eraill gan gynnwys cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol ôl-gofrestru; cymwysterau addysg uwch ffurfiol eraill is na safon gradd; credydau israddedig sefydliadol a dim cymwysterau israddedig ffurfiol.

### **Myfyrwyr sy'n hancu o Gymru**

Y myfyrwyr sydd wedi'u categorio fel myfyrwyr sy'n hancu o Gymru yw'r rhai yr oedd eu cod post cartref yng Nghymru pan oeddent yn mynd i'w sefydliad addysg uwch am y tro cyntaf.

### **Blwyddyn**

Blynnyddoedd academaidd yw'r blynnyddoedd y cyfeirir atynt, o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

### **Diffiniadau ar gyfer Adran E – Addysg Gychwynnol i Athrawon**

#### **Y gallu i addysgu'n ddwyieithog**

Diffinnir myfyrwyr fel rhai sy'n 'gallu addysgu yn ddwyieithog' os ydynt yn cymryd rhan mewn cwrs sydd naill ai'n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol, neu nad yw'n arwain at dystysgrif, ond sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **Y math o radd**

Mae TAR yn cynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a'r Diploma Proffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster lefel gradd Meistr yw'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion, ond nid yw'r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion yn gymhwyster lefel gradd Meistr. Mewn rhai achosion, gallai myfyriwr ddechrau astudio cwrs ôl-radd, ond gadael â chymhwyster israddedig.

Mae mwyafrif y cyrsiau 'Gradd Arall' ar lefel gradd Baglor, gan gynnwys elfen addysgu sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC).

#### **Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)**

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) neu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) oedd hen enwau Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae'n cwmpasu pob llwybr y bydd rhywun yn ei ddilyn i ddod yn athro – gan ennill SAC. Mae'r bwletin hwn yn cwmpasu pobl sy'n dod yn athrawon drwy gyrsiau Addysg Uwch ffurfiol.

## **Statws Athro Cymwysedig (SAC)**

Rhaid bod â Statws Athro Cymwysedig er mwyn addysgu mewn ysgol yng Nghymru. Mae SAC yng Nghymru yn wahanol i SAC yn Lloegr neu gofrestr y Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

## **Lefel ysgol**

Mae 'lefel ysgol' yn nodi a yw'r cwrs yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon ysgol gynradd neu uwchradd. Yn aml, gelwir hyn yn 'gyfnod ysgol'. Pan fydd athro wedi cymhwyso, efallai y bydd yn addysgu ystod oedrannau wahanol i'r un y bu'n hyfforddi ar ei chyfer i gychwyn.

## **Diffiniadau ar gyfer Adran F - Staff**

### **Cyferth ag amser llawn (FTE)**

Cofnodir cyferth ag amser llawn (FTE) yn y contract ac mae'n mesur yr hyn sy'n gyferth ag amser llawn yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

### **Cyferth â pherson llawn (FPE)**

Gall unigolion fod â mwy nag un contract gyda sefydliad a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Mae cyfrifiadau'r staff wedi cael eu rhannu ymhlith eu gweithgareddau yn unol â'r cyfrifiad cyferth ag amser llawn sydd wedi'i ddatgan ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfrif cyferth â pherson llawn. Mae cyfrifiadau Cyferth â Pherson Llawn y staff yn cael eu seilio ar y gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

### **Staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r tabl contractau'n cynnwys manylion am y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfrif y staff academaidd sydd ag o leiaf un contract academaidd sy'n cynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn ôl pum dimensiwn o ansawdd, sef: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae HESA (sef ffynhonnell y data) yn cyhoeddi Ystadegau Gwladol ei hun ac mae'n rhoi manylion am ansawdd ei data [ar ei gwefan](#).

### Perthnasedd

Gwnaethpwyd newidiadau i'r bwletin yn dilyn adborth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a swyddogion polisi'r Gymraeg. Yn 2011 gwnaethpwyd newidiadau i gynnwys y bwletin yn dilyn adborth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, cynhwyswyd y bwletin mewn ymgynghoriad ar ystadegau addysgol, heb ysgogi unrhyw geisiadau allweddol am newidiadau.

Defnyddir yr ystadegau yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiadau pellach o'r data sylfaenol. Mae'r prif ddefnyddwyr yn cynnwys:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Adrannau eraill y llywodraeth;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Sefydliadau Addysg Uwch a chyrrff cynrychioladol;
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau;

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn ffyrdd amrywiol e.e.:

- Fel sail i'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r polisi addysg yng Nghymru ac fel sail i'r strategaethau presennol, er enghraifft, y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

### Cywirdeb

#### Newidynnau sy'n cael eu hunanasesu

Mae llawer o feysydd allweddol HESA sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn dibynnu ar asesiad y myfyriwr neu'r brifysgol. Mae'r dangosydd WELSSP ar gyfer gallu'r myfyriwr i siarad Cymraeg yn cael ei hunanasesu gan y myfyriwr a gall y safon ar gyfer rhuglder newid o'r naill berson i'r llall. Nodir arwyddion nad yw'r dangosydd yn ddibynnol bob amser dan dabl D.1.

Defnyddir preswylfan myfyriwr yn hytrach na chofnod o'i genedl. Fodd bynnag, nid yw'n wir bob tro bod myfyriwr o Gymru yn preswyllo yng Nghymru. Gallai myfyriwr fod wedi symud o Gymru ychydig cyn cychwyn ei gwrs, a gallai hyn olygu bod myfyrwyr nad yw eu preswylfan yng Nghymru yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd, defnyddir y maes LANGPCNT er mwyn canfod a yw myfyriwr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a faint y mae wedi ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r maes hwn yn cael ei asesu gan y brifysgol a gallai prifysgolion asesu cynnwys cyfrwng Cymraeg modiwlau yn

wahanol. Yn 2015/16, darganfuwyd nad oedd rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesu fel rhai a oedd yn cael eu hastudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i sefydliadau naill ai gyflwyno cyfartaleddau cyrsiau neu'r gwerthoedd gwirioneddol am bob cofrestriad i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer yr ystadegau a ddefnyddir yn y bwletin hwn, nid yw gwerthoedd cyfartalog y cyrsiau'n briodol. Mae'n goramcangyfrif nifer y myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd bydd gan ragor o fyfyrwyr werthoedd dim-sero.

## **Diwygiadau**

Yn 2011 daeth i'r amlwg bod Prifysgol Cymru, Casnewydd (Prifysgol De Cymru erbyn hyn) wedi cyflwyno gwerthoedd cyfartaledd cyrsiau ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a oedd yn bodloni gofynion HESA, ond nad oeddent yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol ar gyfer yr ystadegau hyn. Cafwyd data diwygiedig yn uniongyrchol gan Brifysgol Cymru, Casnewydd ar gyfer 2008/09, 2009/10, 2011/12 ac yn ddiweddarach gan Brifysgol De Cymru ar gyfer 2013/14. Er hyn, nid oedd y data diwygiedig yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol ar gyfer y bwletin hwn, neu StatsCymru, felly maent wedi cael eu cynnwys mewn troednodiadau yn unig.

## **Amseroldeb a phrydlondeb**

Casglodd HESA ddata cofrestriadau myfyrwyr a staff ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 rhwng Awst a Hydref 2015. Cynhyrchodd ei datganiad ei hun ar Gofrestriadau Myfyrwyr Addysg Uwch a'r Cymwysterau a Gafwyd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn Ionawr 2016 a rhyddhaodd ei chyhoeddiad diweddaraf am Staff mewn Addysg Uwch ym Mawrth 2016. Mae'r bwletin Cyfrwng Cymraeg hwn yn tynnu sylw at ddimensiwn penodol Gymreig i'r data a gesglir am fyfyrwyr a staff. Symudwyd dyddiad rhyddhau'r bwletin hwn ymlaen o fis Medi i fis Awst er mwyn gwella prydlondeb.

## **Hygyrchedd ac eglurder**

Rhoddir gwybod am y bwletin ystadegol hwn o flaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi yn adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.

I gyd-fynd â'r bwletin hwn ceir tablau manylach yn [StatsCymru](#), safle dosbarthu sy'n galluogi ymwelwyr i weld, addasu a chreu tablau i'w lawrlwytho.

## **Cymaroldeb a chydlyniaeth**

Oherwydd testun y bwletin hwn, nid oes ystadegau y gellir cymharu â hwy wedi'u cynhyrchu ar gyfer gwledydd eraill y DU. Mae'r diffiniadau'n gyson â datganiadau Addysg Uwch eraill Llywodraeth Cymru, ar wahân i'r dadansoddiadau o bynciau sy'n cael eu cyfrifo fesul modiwl yma er mwyn ymgorffori'r wybodaeth cyfrwng Cymraeg.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – [Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/welsh-higher-education-institutions/?lang=cy>

Mae tablau sy'n gysylltiedig â'r bwletin hwn ac sy'n cynnwys mwy o fanylion ar gael drwy [StatsCymru](#), sef gwasanaeth dosbarthu data rhyngweithiol Llywodraeth Cymru.

## Y diweddariad nesaf

Mai 2018 (dros dro)

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i [ystadegau.addysgol16@llyw.cymru](mailto:ystadegau.addysgol16@llyw.cymru)

## Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

